# LLEISIAU PENNAL

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/

## CROESO I YSGOL PENNAL



Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, rydym yn croesawi Ioan atom yn rhan amser yn y prynhawniau. Hefyd, mae saith o ddisgyblion wedi cychwyn yn llawn amser yn y Derbyn eleni. Rydym yn croesawi Mabli, River, Willow ac Abigail am y tro cyntaf. Hefyd Patrick, Efa ac Oskar sydd wedi bod yn mynychu ambell i sesiwn yn y prynhawn llynedd ond sydd wedi cychwyn yn llawn amser mis Medi . Dwi'n siwr byddwch wrth eu boddau yma yn Ysgol Pennal.

Rydym hefyd yn croesawi Miss Tegan Llio Roberts atom hefyd i Ysgol Pennal. Bydd Miss Roberts yn Gymhorthydd Dosbarth, Goruchwyliwr Canol Dydd a Goruchwyliwr Clwb Brecwast.

## CYNGOR YSGOL

Ar ddechrau'r tymor bu disgyblion hynaf yr ysgol yn brysur yn ysgrifennu araith ar gyfer cyflwyno i'r dosbarth cyfan. Cafwyd etholiad a llongyfrachiadau i'r disgyblion isod sydd wedi cael eu enwebu i fod ar y Cyngor Ysgol eleni.

Blwyddyn 2 - Ayda Farmery
Blwyddyn 3 - Riley Johnson-Betts
Blwyddyn 4 - Curig Breese
Blwyddyn 5 - Iestyn Evans
Blwyddyn 6 - Cali Higgs



# SWYDDOGION IAU DIOGELWCH Y FFYRDD

Eleni rydym ni wedi cael ein penodi i fod yn Swyddogion Iau Diogelwch y Ffordd. Ein swydd ni yw cadw pawb yn saff pam rydym yn gadael tir yr ysgol. Rydym yn cael rhywun ar blaen y rhes pam mae pawb yn cerdded i rywle, ac un yn y cefn. Mae hyn yn neud yn siŵr fod neb yn mynd ar goll. Rydym hefyd yn cynllunio pethau hwyl.
Dyletswydd arall sydd gennym yw casglu data pob dydd am sut mae pawb yn dod i'r ysgol. Rydym yn gofyn i bawb pob bore er mwyn gweld sut fedrwn neud pethau yn well i'r amgylchedd.
Ysgrifennwyd gan Leafin a Jack



# CODI ARIAN I YSGOL PENNAL A TIM ACHUB MYNYDD





Un bore dechrau mis Hydref, daeth Alwyn, Tom a Wayne i'r Ysgol i gyflwyno arian godwyd diwedd mis Gorffennaf yn ystod y taith gerdded. Daeth Tim Achub Mynydd i'r ysgol hefyd i dderbyn eu cyfraniad. Diolch yn fawr i Alwyn, Tom a Wayne am y rhodd ariannol. Cyflwynwyd £1425 i'r ysgol a £1425 i Tim Achub Mynydd.

# GWEITHDY TIME AND TIDE BELL



Ar yr 22ain o Fedi daeth Catrin O'neill, Anti Gaynor ac Anti Cath i'r ysgol i siarad efo ni am hen hanesion tyfu fyny yn Aberdyfi. Ar ôl edrych ar hen luniau a sgwrsio, cawson ni wneud gweithgareddau amrywiol fel peintio cerrig a chreu llinellau crancio cynaliadwy gan ddefnyddio pren a rhaff yn hytrach na phlastig.
Roeddwn wedi mwynhau'r prynhawn yn fawr iawn, diolch yn fawr am ddod i'n gweld.
Ysgrifennwyd gan Bleddyn, Cali, Amy a Robin





# DANGOS CERDYN COCH I HILIAETH



DANGOS Y CERDYN COCH I HILIAETH

Dydd Gwener, 17eg o Hydref bu'r ysgol yn cymryd rhan mewn Diwrnod Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, gan sefyll yn gadarn yn erbyn pob math o wahaniaethu ac annog parch i bawb.
Fel arwydd o gefnogaeth, gwisgodd staff a disgyblion ddillad coch drwy'r dydd. Roedd yr ysgol yn llawn lliw ac egni, gan ddangos ein hymrwymiad i greu cymuned deg a chroesawgar.


# SIOE PENNAL



Cyn gwyliau'r Haf bu disgyblion Ysgol Pennal yn brysur yn paratoi at Sioe Pennal. Llongyfarchiadau i'r enillwyr ar ddiwrnod Sioe Pennal diwedd mis Awst.

**Crefft - Creu anifail allan o blât papur**
Blwyddyn 2 a iau - 1af Llewyn

**Arlunio Fy Ffrind**
Meithrin a Derbyn - 3ydd Patrick
Blwyddyn 1 a 2 - 1af Arrow, 2il Emilia, 3ydd Ayda




**Arlunio Yr Ysgol**
Blwyddyn 3 a 4 - 1af Bleddyn, 3ydd Curig
Blwyddyn 5 a 6 - 1af Cali, 2il Pearl, 3ydd Melys

**Llawysgrifen Rhestr enwau 'Fy Ffrindiau'**
11ac iau - 1af Leafin, 2il Iestyn, 3ydd Amy

**Ffotograffi 11 ac iau- Ffrindiau**
1af, Emilia, 2il Riley, 3ydd Jack

**Ysgrifennu traethawd ar unrhyw agwedd o hanes Pennal (Dan 18oed)**
1af Jack, 2il Iestyn, 3ydd, Nia, Melys ac Angharad









## SESIYNAU IOGA GYDA JESS

Diolch yn fawr iawn i Jess am ddod i wneud ioga efo ni. Trefnwyd y sesiynau trwy Eginiad Cymru, ac ariannwyd y gweithdai drwy gronfa Ynni Adnewyddadwy Cymunedol Bro Ddyfi. Rydym ni wedi gwneud siapiau anifeiliaid fel sy'n stori 'My Many Coloured Days gan Dr Seuss, a siapiau'r tywydd. Roedd y tywydd yn addas iawn achos rydym wedi bod yn casglu data a gwneud graff llawr mawr tywydd mis Medi! Rydym wedi bod yn gwneud ystumiau pigog fel draig hefyd achos dreigiau ydy'n thema ni. Rydym ni wedi canolbwyntio, gweithio'n galed a dal ati efo Jess i ddysgu rheoli ein anadl hefyd drwy gasglu ac arogli blodau dychmygus a chwythu swigod dychmygus. Mae Deinosor Dychymyg Ysgol Pennal, un o gymeriadau Pwerau Dysgu Pennal wrth ei fodd efo ni!
Fel ac a ddywedwyd gan Emilia, Llewyn a Silyn.

## BORE COFFI MACMILLAN



Rydym ni yn meddwl 'Sharing is caring" felly 'da ni wedi rhannu ein arian efo pobl sydd yn sâl. Rhannu ein arian i drio dysgu mwy am ganser i helpu pobl i wella. 'Da ni wedi addurno cacennau bach efo eisin a da-da bob lliw. Diolch yn fawr iawn i Anti Kim am wneud y cacennau bach sbwng ac i Miss Roberts am ein helpu i addurno. Ar ôl addurno, roedd angen gwneud baner fach i ysgrifennu ein enw arno. Cawsom addurno'r gegin yn wyrdd fel lliwiau Macmillan a rhoi cacen fach i pawb yn lle mae pawb yn eistedd i gael cinio. Roedd £94 yn y cadw mi gei Macmillan ar ddiwedd y dydd. Diolch hefyd i Iestyn am gasglu'r arian, i'r Cyngor Ysgol a Mrs Miriam Jones am gyfrif yr arian ac i Mrs Thomas-Evans am dalu'r arian i gyfrif banc Macmillan.
Fel ac a ddwedwyd gan Ayda, River, Willow.

# GWEITHDAI COETIR ANIAN




Ar y 23ain o Fedi aethon ni i Goetir Anian er mwyn dysgu am y goedwig law gyda Clarisa. Yn gyntaf chwaraeon ni gêm ‘ystlum a gwyfyn’ ble mae rhaid i ni wrando yn astud i glywed ein gilydd. Aethon ni am dro i'r goedwig i edrych yn agosach ar blanhigion y goedwig fel celyn a leicen gydag ysbienddrych. Roedd hyn yn ddiddorol iawn.

Nesaf, wnaethon ni weithio fel tîm i wneud llun o haenau'r goedwig gan ddefnyddio defnyddiau naturiol. Ychwanegon ni anifeiliaid y goedwig i'r haenau er mwyn dangos ble mae eu cartrefi.

Ar ôl bwyta ein bocs bwyd o amgylch y tân, edrychon ni yn agos ar nythod go iawn a sut mae anifeiliaid wedi eu hadeiladu. Mewn grwpiau, defnyddion ni defnyddiau naturiol i adeiladu nythod a chartrefi i anifeiliaid y goedwig fel aderyn, gwiwer, broga, cwningen, draenog a llwynog.

Rydym wedi mwynhau’r holl weithgaredd ac yn edrych ymlaen at weld Clarisa eto yn fuan. Diolch Coeti Anian!

Ysgrifennwyd gan Arrow, Riley ac Iestyn











# PEL DROED YR URDD



Ar yr 30ain o Fedi aethon ni i chware pêl droed yn y Bala. Roeddwn yn lwcus iawn i gael gwisgo cit newydd y Ffederasiwn am y tro cyntaf. Diolch yn fawr i'r noddwyr. Yn y gêm gyntaf chwaraeom yn erbyn ysgol y Traeth ac ennill 1 i 0. Yna curo'n ni 1 i 2 ETO yn erbyn tîm gwych. Yn y 3 gêm olaf doedd neb wedi sgorio. Yn anffodus, aethon ni ddim drwodd i'r rownd derfynol, ond roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen at gael trio eto flwyddyn nesaf.
Ysgrifennwyd gan Melys, Angharad a Curig

Diolch yn fawr i'r noddwyr sydd gyda chysylltiad agos gyda'r Ffederasiwn am eich rhodd ariannol i brynu'r 'kit' newydd ar gyfer y Ffederasiwn. Rydym yn ddiolchgar iawn.

- Pen-e-goes Massage (Nain Angharad Ysgol Pennal)
- Jones & Jones (Tad Gruff a Pegi Ysgol Dyffryn Dulas)
- Grace & Howe (Rhieni Iestyn Ysgol Pennal)
- Carwyn Lloyd Tree Surgeon (Ewythr Elain Ysgol Dyffryn Dulas)
- Steve Evans Groundwork and Plant Hire (Gwr Mrs Thomas-Evans)

# DIWRNOD SHWMAE SU MAE

Dydd Mercher, 15fed o Hydref bu'r ysgol yn cymryd rhan yn Niwrnod Shw Mae Su'mai, sef diwrnod cenedlaethol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd hwyliog a chynhwysol. Roedd yr ysgol yn llawn egni a lliw wrth i ddisgyblion a staff wisgo dillad Cymru, a chroesawu ei gilydd gyda "Shw mae!" neu "Su'mai!" drwy'r dydd. Bu gweithgareddau amrywiol yn ystod y dydd. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i ddathlu'r iaith Gymraeg, annog ei defnydd bob dydd, a dangos balchder yn ein diwylliant.



# DIWRNOD IECHYD MEDDWL

#HelloYellow YOUNGMINDS



Roedd diwrnod melyn y byd yn hwyl! Cawsom ni helpu i ddewis tasgau sy'n ein helpu i edrych ar ôl ein meddwl, pethau fel tasgau toes melyn, gweithio'n gorfforol galed efo balŵns, côns a peli melyn, coginio efo bwydydd melyn fel cwstard a bananas, gwneud patrymau efo camelod melyn sy'n cysylltu, a chreu adwaith cadwyn efo dominos melyn. Rydym ni wedi dal ati i fwynhau rhoi ein llun ar siart teimladau a rheoli emosiwn y dosbarth bob bore. Mae hapus yn wyrdd, wedi cyffroi yn goch, wedi blino a brifo yn las ac ofnus yn felyn. Rydym ni wedi gwneud cynnydd da iawn gyda dweud sut ydym ni'n teimlo a pham yr ydym yn teimlo fel hyn. Mae gan Ysgol Pennal 'Y Tipi Teimladau' hefyd i fynd i pan mae rhywun angen amser allan. Mae gennym ni focs o ddewisiadau tawelu i'n helpu i deimlo'n well. Mae yna bethau fel teganau meddal, troellwyr, llyfrau lliwio a pianos bach yn y bocs.

Fel ac a ddwedwyd gan Abigail, Efa, Mabli, Oskar a Patrick.




# SIALENS DDARLLEN



Derbyniodd Efa Thorndyke (Derbyn) fedal gan Llyfrgell Gwynedd a Leafin Onnen (Blwyddyn 6) fedal gan Llyfrgell Powys ar ol cwblhau her genedlaethol Sialens Ddarllen yr Haf 'Gardd o Straeon'. Roedd y ddau wedi llwyddo i fynychu'r llyfrgell o leiaf 3 gwaith dros Wyliau'r Haf a darllen o leiaf 6 llyfr.

Da iawn chi.








# CYSTADLEUAETH DIOGELWCH TAN

Llongyfarchiadau i Cali ar ennill y wobr gyntaf yng nghystadleuaeth rhestri peryglon dwr ac ennill bocs o LEGO. Trefnwyd y gystadleuaeth ar gyfer ysgolion Gogledd Cymru.



# LABRINTH Y BRENIN ARTHUR

Ar y 18fed o Fedi, aeth Blwyddyn 3,4,5 a 6 i Labrinth Brenin Arthur yng Nghorris. Rydym yn gwneud gwaith ar Brenin Arthur yn tynnu'r cleddyf o'r garreg yn yr ysgol.
Yn gyntaf, aethon ni rownd y ddrysfa. Roedd rhaid chwilio am gliwiau a dreigiau er mwyn datrys y cod.
Yn ail, aethon ni i'r Labrinth. Roedd rhaid mynd ar gwch. Roedd yna raeadr ond diolch byth, oedden ni'n sych. Yn y labrinth, clywsom ni am hen hanesion a storiâu am y Brenin Arthur. Roedd hi'n fore gwych, diolch yn fawr.
Ysgrifennwyd gan, Harry L, Harry R, Jack Norman, Hunter a Zephyr






# YSGOL BRO HYDDGEN

Ar y 1af o Hydref aeth blwyddyn 6  Ysgol Pennal a Dyffryn Dulas i Ysgol Bro Hyddgen ar gyfer diwrnod Trosglwyddo. Yn gyntaf cawsom ni ein rhoi mewn grwpiau ac ymlaen a ni i'r wers gyntaf sef celf. Yn y wers wnaethon ni lun o law 3D. Roeddwn wedi mwynhau'r gweithgaredd yma yn fawr iawn ac wedi bod wrthi yn gwneud mwy ohonynt yn yr ysgol ers hynny. Roedd y diwrnod yn un prysur iawn wrth i ni gael gwersi Daearyddiaeth, TGCh, hanes, gwaith tîm a Mathemateg. Rydym ni gyd wedi mwynhau'r diwrnod trosglwyddo ac yn edrych ymlaen am y nesaf yn barod.
Ysgrifennwyd gan Jesse Rowlads a Tomos Parry

MEDI A HYDREF 2025

# LLEISIAU PENNAL

## COGURDD





Cystadleuaeth Cogurdd eleni oedd gwneud brechdan agored. Un prynhawn yn sesiwn yr Urdd, bu 12 disgybl yn brysur yn gwneud brechdan agored gydag amrywiaeth o fwydydd blasus yn cael ei defnyddio.
Mrs Dilys Roberts oedd y beirniad eleni a dyma'r canlyniad :
1af Jesse Rowlands
2il Cali Higgs
3ydd Tomos Parry



## POBURDD

Bu 5 o ddisgyblion sydd yn aelod o'r Urdd yn pobi cacennau dathlu adref ar gyfer y diwrnod beirniadu yn yr ysgol un pnawn dydd Llun.
Llongyfarchiadau i'r disgyblion am baratoi cacennau deniadol iawn.
Daeth Curig Breese yn gyntaf, Jesse Rowlands yn ail ac Angharad Evans yn drydydd. Da iawn chi, roedd hi werth weld y cacennau. Mrs Thomas-Evans ac Anti Kim oedd y beirniaid.





MEDI A HYDREF 2025

# LLEISIAU PENNAL

## SESIYNAU BEICIO

Mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi bod yn rhan o'r prosiect Beicio i Bawb sydd wedi cael ei drefnu gyda Beics Antur.  Roedd y sgiliau beicio yn galluogi pob plentyn i gael cyfle i ddysgu sgiliau a technegau beicio mewn awyrgylch saff ar dir yr ysgol a chodi hyder plant ar gefn beic. Dysgwyd sut i ofalu am y beics, pwysigrwydd helmedi a dillad addas, a mynd ar ac oddi ar y beic yn ddiogel. Diolch yn fawr i Gethin am gynnal y sesiynau yn ystod y dau ddiwrnod. Roedd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi mwynhau'n fawr.







## GWASANAETH DIOLCHGARWCH







Cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys Pennal gyda'r thema dosbarth 3-7 oed eleni ar Ffrindiau. Thema dosbarth 7-11 oedd Brenin Arthur a chyfeillgarwch.
Fel rhan o'n dathliadau Diolchgarwch, buom yn casglu eitemau bwyd i gefnogi'r banc bwyd lleol. Diolch o galon i bawb a gyfrannodd. Mae'r eitemau'n mynd i helpu teuluoedd yn ein cymuned sydd angen cymorth ychwanegol dros yr hydref a'r gaeaf.